| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Tachwedd 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o ddarpariaeth ysgol gynradd yn ardal Rhuthun** |

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i Aelodau ynghylch y potensial ar gyfer adolygiad o ddarpariaeth ysgol gynradd yn ardal Rhuthun.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I roi gwybodaeth i Aelodau ar y prif faterion sy'n wynebu ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun ac i amlinellu'r dull a argymhellir ar gyfer cynnal yr adolygiad, gan gynnwys goblygiadau cyfalaf amlinellol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I gymeradwyo adolygiad o ddarpariaeth ysgol gynradd yn ardal Rhuthun a chychwyn ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol yn Chwefror 2013.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae perfformiad addysgol disgyblion yn Sir Ddinbych wedi parhau i wella dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae yna dal le i wella ac i ddarparu'r addysg orau bosibl i ddisgyblion er mwyn iddynt gael cyflawni eu potensial.

Mae amgylchedd yr ysgol yn gallu effeithio ar bresenoldeb a pherfformiad disgyblion, ac mae llawer o ysgolion yn Sir Ddinbych angen cael eu gwella a'u moderneiddio. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau sylweddol i ysgolion a chyfleusterau ysgolion ein sir fel y gallwn drawsffurfio'r amgylchedd dysgu i gefnogi addysg.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'n angenrheidiol adolygu darpariaeth ysgolion. Bydd yr adolygiad ardal yn canolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

- Sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth addysg o'r ansawdd uchaf;
- Gwella ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgol;
- Darparu'r nifer cywir o lefydd, o'r math cywir yn y lleoliad cywir;

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i adolygu darpariaeth ysgol gynradd ar sail ardal, gan gydnabod y bydd newidiadau i ysgolion unigol yn effeithio ar ysgolion cyfagos. Hyd yn hyn, mae'r awdurdod wedi cwblhau adolygiadau o ddarpariaeth ysgol

gynradd yn ardaloedd Prestatyn, Dwyrain Dyffryn Dyfrdwy (Llangollen) ac Edeyrnion (Gorllewin Dyffryn Dyfrdwy). Mae'r adolygiadau wedi arwain at nifer o newidiadau yn y ddarpariaeth ysgol, gan gynnwys cau, uno a ffederaleiddio, a hefyd wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol yn yr ardaloedd hynny i wella cyfleusterau ysgol.

Mae swyddogion yn argymell bod yr adolygiad newydd o ddarpariaeth ysgol gynradd yn digwydd yn ardal Rhuthun, am y rhesymau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.

<u>Ysgolion i'w hystyried o fewn yr ardal fydd yn cael ei hadolygu</u>

Ystyrir bod yna 11 ysgol o fewn ardal Rhuthun - Ysgol Borthyn, Ysgol Bro Famau, Ysgol Clocaenog, Ysgol Cyffylliog, Ysgol Gellifor, Ysgol Llanbedr, Ysgol Llanfair D.C, Ysgol Pentrecelyn, Ysgol Pen Barras, Ysgol Rhewl a Ysgol Rhos Street.

<u>Rhesymau dros adolygu darpariaeth ysgol yn ardal Rhuthun</u>

4.1 Safonau addysg

Yn gyffredinol, mae safonau addysg o fewn yr ardal yn dda gyda'r mwyafrif o ysgolion yn derbyn arolygiadau Estyn positif yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae yna nifer o faterion a fydd yn effeithio ar allu ysgolion i gynnal a gwella safon y ddarpariaeth addysg yn y dyfodol.

Mae recriwtio penaethiaid yn broblem genedlaethol a lleol gydag ysgolion bach yn arbennig yn ei chael yn anodd recriwtio penaethiaid parhaol. Penaethiaid dros dro sydd gan ddwy ysgol o fewn ardal adolygiad Rhuthun ar hyn o bryd. Mae diffyg pennaeth parhaol yn gallu effeithio ar arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol ac yn risg o ran darparu addysg a sicrhau safonau o fewn ysgol.

4.2 Cynaliadwyedd ysgolion a darpariaeth addysg o ansawdd uchel

Mae ysgolion yn ardal Rhuthun yn wynebu sawl her a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ysgolion a chynaliadwyedd darpariaeth addysg o ansawdd uchel yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys maint, lleoliad, cyflwr adeiladau a chyfleusterau ysgol, addasrwydd safleoedd, dibyniaeth ar ddosbarthiadau symudol, llefydd dros ben a recriwtio penaethiaid.

Tra bod y cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn galluogi ysgolion i ddarparu'r cwricwlwm sylfaenol, mae'r amgylchedd presennol yn aml yn cyfyngu ar y potensial i ddarparu'r cwricwlwm blaengar sydd ei angen ar gyfer dysgu yn yr 21 ganrif.

Mae adroddiadau Estyn i ysgolion Rhuthun a gyhoeddwyd yn y cyfnod 2008 i 2012 wedi cynnwys sylwadau ynghylch cyfyngiadau a welwyd ar safleoedd ysgolion yn ardal Rhuthun. Mae'r rhain yn cynnwys:- adeiladau ysgol yn wasgaredig, gyda nifer o ddosbarthiadau mewn ystafelloedd dosbarth symudol eu natur; rhannu cyfleusterau yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar y safle; y defnydd o un ystafell ddosbarth fel ystafell fwyta yn tarfu ar y dysgu; a phrinder mannau parcio, yn enwedig ar gyfer casglu plant neu eu danfon i'r ysgol yn y bore.

Mae ymchwil a gynhaliwyd yn dangos cysylltiadau eglur rhwng cyflawniad academaidd myfyrwyr ac ansawdd yr amgylchedd ffisegol. Mae materion fel yr adeiladau yn effeithio ar ymddygiad myfyrwyr a gall hunanhyder gael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad. Heblaw am y gwelliannau o ran cyflawniad, mae tystiolaeth yn dangos bod gwelliannau yn lefel y sylw, bod mwy o ganolbwyntio ar y dasg a lleihad mewn ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Mae yna hefyd welliannau yn hunan-barch dysgwyr a'u hathrawon, gwelliannau yn eu hwyliau a'u cymhelliant, a llai o enghreifftiau o fod yn hwyr neu'n absennol.

4.3 Cyflwr adeiladau a chyfleusterau ysgolion

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgolion. Mae ar yr holl ysgolion sydd o fewn ardal yr adolygiad angen buddsoddiad i wella ansawdd yr adeiladau ysgol a'r cyfleusterau sydd ar gael. Ar draws yr 11 ysgol, mae yna ar hyn o bryd ôl-groniad cynnal a chadw o tua £1.48 million. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar gynnal a chadw adeiladau sydd eisoes yn bodoli ac nid yw'n berthnasol i unrhyw welliannau a wneir i gyfleusterau.

4.4 Addasrwydd safleoedd ysgol

Mae yna broblemau gyda nifer o safleoedd ysgol o fewn ardal yr adolygiad. Ystyrir bod nifer o safleoedd yn rhy fach o'u cymharu gyda gofynion gofod BB98, tra bod nifer ohonynt wedi'u cau i mewn, heb unrhyw botensial i gynyddu maint y safle. Yn benodol, mae yna nifer o broblemau ynghylch addasrwydd y safle sy'n cael ei rannu ar hyn o bryd rhwng Ysgol Pen Barras ac Ysgol Rhos Street yn nhref Rhuthun.

4.5 Dosbarthiadau Symudol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gael gwared â dosbarthiadau symudol o ysgolion a darparu adeiladau parhaol yn eu lle, ble bynnag fo angen hynny. Yn ôl y sefyllfa yn Ionawr 2012, roedd 670 o lefydd ysgol yn Sir Ddinbych yn cael eu darparu mewn llety symudol, sy'n gywerth â 7.9% o gyfanswm y llefydd ysgol gynradd yn y Sir.

Yn yr 11 ysgol yn ardal Rhuthun, mae 258 o lefydd yn cael eu darparu mewn llety symudol, sy'n gywerth â 21.3% o lefydd ysgol gynradd yn yr ardal. Yn ôl y sefyllfa yn Ionawr 2012, roedd llety symudol o fewn ardal Rhuthun yn cyfrif am 38% o'r holl lefydd ysgol gynradd a ddarparwyd drwy lety symudol yn Sir Ddinbych. Gweler Atodiad A am fanylion pellach.

4.6 Llefydd dros ben

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob awdurdod yng Nghymru sef i leihau llefydd dros ben (llefydd gwag) mewn ysgolion o 10%. Yn ôl y sefyllfa yn Ionawr 2012, roedd gan Sir Ddinbych 1454 o lefydd gwag mewn ysgolion cynradd, sydd gyfwerth â 16.9%.

Ar hyn o bryd, yn seiliedig ar ddata Medi 2012, mae gan yr 11 ysgol sydd o fewn ardal Rhuthun 279 o lefydd gwag, sydd gywerth â 23.0% o gyfanswm y llefydd ysgol gynradd o fewn yr ardal. Gweler Atodiad B am fanylion pellach.

Yn seiliedig ar ddata Medi 2012, byddai'n rhaid i'r awdurdod leihau nifer y llefydd ysgol o fewn ardal Rhuthun o 185 o lefydd llawn-amser i gwrdd â'r targed 10% o lefydd dros ben ar draws yr ardal.

4.7 Niferoedd y disgyblion, dosbarthiad a rhagamcaniadau

Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i drefnu ei ysgolion i sicrhau bod gennym y nifer cywir o lefydd ysgol, o'r math cywir, yn y lleoliad cywir. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried nifer hanesyddol y disgyblion a'r nifer ar hyn o bryd, rhagamcaniadau o niferoedd i'r dyfodol a dosbarthiad disgyblion ar draws yr ardal.

Mae'r sefyllfa yn ardal Rhuthun yn gymhleth gyda 11 ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang. Mae cyfran sylweddol o'r disgyblion o fewn yr ardal yn cael eu haddysgu yn y 3 ysgol yn nhref Rhuthun, gyda'r gweddill yn cael eu haddysgu yn yr 8 ysgol wledig. Mae'r ffaith nad yw llawer o ddisgyblion yn dewis mynychu eu hysgol agosaf addas yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach.

<u>Y ffordd ymlaen</u>

Pe rhoddir cymeradwyaeth i fwrw ymlaen gyda'r adolygiad, byddai cyfarfod cychwynnol yn cael ei gynnal gyda Phenaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr a Chynghorwyr lleol yn yr ardal dan sylw. Byddai'r cyfarfod hwn yn rhan o broses pedair wythnos i helpu llunio'r ddogfen ymgynghori anffurfiol a sicrhau bod unrhyw wybodaeth a roddir yn y ddogfen yn gywir. Yn dilyn y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd cyfnod ymgynghori anffurfiol yn dechrau yn Chwefror 2013.

Bydd y cyfnod ymgynghori anffurfiol yn canolbwyntio ar yr achos dros newid o fewn yr ardal, y blaenoriaethau i ymdrin â hwy, ac ar gytuno ar ymagwedd cam wrth gam o ran cynnal unrhyw ymgynghoriadau ffurfiol yn seiliedig ar gynigion a ddaw i'r amlwg.

Oherwydd nifer yr ysgolion o fewn yr ardal dan sylw, mae'n debygol y bydd yn rhaid defnyddio ymagwedd cam wrth gam wrth gynnal yr adolygiad, er mwyn sicrhau fod gan y sir y gallu i gynnal ymgynghoriad ffurfiol, ac yna i weithredu unrhyw gynigion a ddaw i'r amlwg yn ystod yr adolygiad.

O ganlyniad i'r angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella cyfleusterau ysgol yn yr ardal, a'r angen i leihau llefydd dros ben ar draws Sir Ddinbych o 10% yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ni chred yr awdurdod bod cynnal y status quo yn ddewis ymarferol.

Bydd yr adolygiad yn arwain at newid sylweddol o ran trefniant ysgolion ar draws yr ardal. Mae'n debygol y bydd cynigion a ddaw i'r amlwg yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol yn cynnwys cau ysgolion, uno ysgolion a chreu ysgolion ardal. Byddai'r newidiadau hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn yr ardal i ddarparu gwell adeiladau a chyfleusterau ysgol trwy gyfuniad o adeiladau newydd, estyniadau a gwaith adnewyddu.

<u>Amserlenni</u>

Bydd yn rhaid wrth ymgynghoriad cyhoeddus maith cyn y bydd unrhyw newidiadau i ddarpariaeth ysgol, a gallai hynny arwain at gyhoeddi cynigion statudol. Bydd

cynigion sy’n ymwneud â threfniant ysgolion fel rheol yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn cyfnod o 12-24 mis, yn ddibynnol ar natur pob cynnig. Byddai prosiectau adeiladu yn deillio o’r adolygiad yn cymryd rhwng 12-36 mis i’w cwblhau, eto gan ddibynnu ar faint y prosiect.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd yr adolygiad ac unrhyw argymhellion sy’n codi o’r broses adolygu yn cefnogi’r Flaenoriaeth Gorfforaethol arfaethedig o ‘Wella adeiladau a safonau ysgol i bawb’.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y costau cychwynnol yn gysylltiedig gyda’r ymarfer ymgynghori, sef argraffu a phostio dogfennau i randdeiliaid ac unrhyw gostau llogi mannau cyfarfod, ayyb.

Bydd gan gynigion a ddaw o’r adolygiad, yn enwedig y rhai sy’n gofyn am wella ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgol, oblygiadau cyfalaf sylweddol; byddai’n rhaid ystyried a chymeradwyo’r costau hynny cyn symud ymlaen.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad hyd yma. Pe byddai’r Cabinet yn cymeradwyo’r adolygiad arfaethedig, byddai proses ymgynghori trylwyr yn digwydd yn unol gydag argymhellion a threfniadau statudol Llywodraeth Cymru.

Byddai unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol â threfniadau adolygiadau ardal flaenorol, ac yn cynnwys ymgynghoriad anffurfiol, ffurfiol a statudol gyda disgyblion, rhieni, staff, Penaethiaid, llywodraethwyr, Cynghorwyr a’r cymunedau lleol.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Costau mân yn unig sy’n gysylltiedig â’r broses adolygu, a bydd y costau hynny yn cael eu talu o gyllidebau sydd eisoes mewn bodolaeth. Bydd goblygiadau ariannol sylweddol yn perthyn i’r cynigion a fydd yn codi o’r adolygiadau hyn.

Gan nad yw ardal adolygu Rhuthun yn rhan o gynigion Band A Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain y Sir, bydd yn rhaid i’r Cyngor ariannu 100% o’r costau cyfalaf fydd yn gysylltiedig ag unrhyw gynigion. Rhagwelir y bydd y cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer derbyn arian o’r dyraniad a ddarperir o fewn y Cynllun Corfforaethol ac o arbedion a gynhyrchir yn sgil yr adolygiad.

## 9. Beth yw’r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Mae yna bosibilrwydd cryf y gallai’r adolygiad a chynigion a fyddai’n codi o’r adolygiad greu cyhoeddusrwydd niweidiol i’r Cyngor. I leihau’r risg, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn cyfathrebu’n glir gyda’r holl randdeiliaid.

Mae yna bosibilrwydd y gallai’r Cyngor hefyd godi disgwyliadau o safbwynt adeiladau a chyfleusterau ysgol newydd trwy lansio adolygiad, ac na fyddai o bosibl wedyn yn gallu cyflawni hynny yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. I leihau’r risg, bydd y

Cyngor yn ceisio cytuno bod swm penodol o arian cyfalaf yn cael ei neilltuo i weithredu argymhellion yr adolygiad.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

s29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, 1998.

Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet, Ionawr 2009)